**CEFNOGI'R gymuned a helpu grwpiau lleol yw nodau maer newydd y Rhyl.**

Mae'r Cynghorydd Ellie Chard wedi cymryd y swydd am y tro cyntaf, yn olynu'r Cynghorydd Win Mullen-James.

Daeth y Cyngohrydd Chard yn gynghorydd tref yn 2011 ac fe'i hetholwyd i Gyngor Sir Ddinbych yn 2017.

Meddai'r Cynghorydd Chard, sydd wedi treulio 25 mlynedd yn gweithio yn Ysgol Mair y Rhyl fel gweinyddwr: "Mae'n anrhydedd cael fy ethol fel maer, yn enwedig ar adeg pan fo'r dref yn gweld cymaint o newid positif.

"Deuthum yn gynghorydd i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, felly dros y 12 mis nesaf byddaf yn ceisio cefnogi'r llawer o grwpiau lleol sy'n gwneud cymaint o waith da yn y Rhyl a gobeithiaf ymweld â chymant ohonynt ag y bo modd. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r dref a bydd cymuned y Rhyl yn chwarae rhan bwysig yn y newidiadau o'n blaenau."

Cyn ymuno ag Ysgol Mair, roedd y Cynghorydd Chard, darllenwr yn Eglwys Babyddol y Santes Fair yn y Rhyl, yn gweithio i gwmni cyfreithiol Gamlins ac yna mewn bancio gyda'r Abbey National a Barclays.

Mae gan y Cynghoryd Chard, llywodraethwr Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ysgol Tir Morfa a chyn-gynorthwyydd uned gyda 3ydd Brownis y Rhyl, ddwy ferch, Jane a Lucy, ac ŵyr ac wyres, Jack a Cariad.

Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, bydd y Cynghorydd Chard, sydd â diabetes math 2, yn cefnogi a chodi arian i Diabetes UK Cymru a'r Gist Drysor, elusen yn Ysbyty Glan Clwyd Bodelwyddan sy'n cefnogi pobl gyda chanser y fron.

"Yn ôl ym 1980 pan gefais y diagnosis o ddiabetes yn y lle cyntaf, dywedodd y metron yn yr ysbyty wrthyf am gysylltu gyda Diabetes UK gan y byddent yn rhoi i mi yr help roeddwn ei angen. Rodd hi'n iawn a thrwy gefnogi'r elusen eleni, rwy'n medru rhoi rhywbeth yn ôl. Mae'r Gist Drysor yn elusen bach ond pwysig ac rwy'n hapus yn medru eu helpu hwythau hefyd," ychwanegodd y Cynghorydd.

Ei chymar ar gyfer y flwyddyn fydd ei gŵr, Dudley, sydd wedi gweithio i Marks & Spencer am 43 o flynyddoedd. Caplan y maer fydd y Parchedig Dad Charles Ramsay o Eglwys Babyddol y Santes Fair.

Y dirprwy faer yw'r Cynghorydd Diane King sy'n cynrychioli ward Pendyffryn.